**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 8fed Gorffennaf 2019**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 8th July 2019**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Eileen Curry Beth Davies, Gethin Jones, Susan Lloyd, Andrew Howell.

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr /Apologies for absence was received from Cllrs Keith Evans, Aled Jones, Mike Hotson, Abby Reid, Peter Evans, Douglas Davies, Llŷr Jones a/and Peter Davies.

   **Gan nad oedd cworwm, Nid oedd modd gwneud unrhyw benderfyniadau.**
   **As there wasn’t corum No decisions were able to be reached.**

2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / There were no declarations of interest.

3. **Cofnodion/Minutes** Edrychwyd dros gofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin er mwyn gweld a fyddai angen gwneud unrhyw beth cyn y cyfarfod nesaf. / Minutes of monthly meeting held on June 10th were looked at to see if anything needed to be done by the next meeting.

   Nodwyd nad oedd y PSCO wedi cael ei weld o gwmpas y pentref. / It was noted that the PSCO was not seen around the village.
   Nododd Cyng Andrew Howell y bu ymateb da i'r holiaduron ynghylch y cynlluniau Bro. Atgoffodd bawb o'r ffaith y cynhelir cyfarfod ar 29 Gorffennaf i gyflwyno'r canfyddiadau. / Cllr Andrew Howell noted that had been a good response to the questionnaires regarding the Place plans, He reminded all of the 29th July meeting to present the findings.

**Personol / Personal**

Roedd y Clerc yn absennol o'r cyfarfod ar ôl colli ei thad. Ysgrifennwyd y cofnodion gan Gyng Susan Lloyd yn ei habsenoldeb.

The Clerk was absent from the meeting due to the loss of her father. Cllr Susan Lloyd took the minutes in her absence.

**4) <u>Ceisiadau Ariannol</u>:-** .
Cafwyd un cais am gyllid er mwyn helpu Gŵyl yr Afon.  Byddai hwn yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Medi.

5)  **<u>Materion i'w trafod</u>**
**<u>Polisi</u>**
Byddai diwygiadau i unrhyw Bolisi yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod ym mis Medi.

**<u>Materion Wardiau</u>**

Atgoffwyd yr holl Gynghorwyr gan Gyng Beth Davies o'r Gwasanaeth Dinesig a gynhelir ar 14 Gorffennaf er mwyn anrhydeddu Peter Davies.

**<u>Capel Dewi</u>**
Byddai Cyng Tom Cowcher yn cysylltu â'r clerc ynghylch materion yng Nghapel Dewi.

**<u>Llandysul</u>**
Y clerc i gysylltu â Dwynwen Teifi, gan ofyn iddi fynychu'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod ei llyfr.
**<u>Pont-siân</u>**
Mae preswylwyr ym Mhont-siân yn anhapus gyda'r newid i'r dyddiadau casglu.

Rhannwyd llythyrau gyda Chynghorwyr am y terfyn cyflymder ym Mhont-siân ac yng Nghapel Dewi.

6)  **Cydnabod derbyn rhodd**
Cafwyd gohebiaeth yn cydnabod derbyn rhodd gan Garnifal Llandysul ac ysgrifennwyd siec am y swm o 220.

**<u>Gohebiaeth</u>**
Cafwyd y canlynol gan

**<u>UlC/SLCC/Clerks and Councils Direct</u>** –

Cafwyd cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.
**<u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u>**
Cafwyd gwybodaeth ynghylch Datblygu Gwasanaethau Trawma yn y Bwrdd Iechyd.

**<u>Eisteddfod Ceredigion 2020</u>**

**4) <u>Funding Applications</u>:-** .
There was one application for help with funding the River Festival.  This would forwarded to the September meeting for discussion.

5)  **<u>Matters for discussion</u>**
**<u>Policy</u>**
Amendments to any Policy would be discussed at the September meeting.

**<u>Ward Matters</u>**

Cllr Beth Davies reminded all Councillors of the Civic Service to be held on the 14th July in hounour of Peter Davies.

**<u>Capel Dewi</u>**
Cllr Tom Cowcher would get in touch with the clerk regading issues in Capel Dewi.

**<u>Llandysul</u>**
The clerk to contact Dwynwen Teifi to attend the next meeting to discuss her book.
**<u>Pontsian</u>**
Residents in Pontsian are unhappy with the change in collection dates.

Letters was shared with Councillors regarding the speed limit in Ponstian and Capel Dewi.

6)  **Acknowledge receipt of donation**
Acknowledgements were received from Llandysul Carnival and a cheque was written for 220.

**<u>Correspondence</u>**
The following were received from

**<u>OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct</u>** –

The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct were received.
**<u>Hywel Dda Health Board</u>**
Information  regarding Developing Trauma Services in the Health Board was received.

**<u>Eisteddfod Ceredigion 2020</u>**
Chariman Gethin Jones and Mrs Sara Jones had

Roedd y Cadeirydd, Gethin Jones, a Mrs Sara Jones wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod y Seremoni Gyhoeddi a gynhaliwyd yn Aberteifi ar 29 Mehefin 2019.  Diolchodd Cyng Gethin Jones i'r Cyngor am yr anrhydedd.

**7** Cynllunio
Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 10 Gorffennaf 2019.

Roedd yr aelodau yn ei chael hi'n anodd mewngofnodi i'r dogfennau cynllunio.  Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir am arweiniad pellach.

8)  Gwybodaeth Ariannol
**Anfonebau:**-

Llinos Jones– Cafwyd anfoneb am y swm o 190.00 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mehefin a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Swalec – Ysgrifennwyd siec am y swm o £644.18 am y goleuadau Nadolig yn Llandysul.

Gan mai Cyng Andrew Howell oedd yr unig lofnodwr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, bydd y clerc yn cysylltu ag Abby Reid i gael ail lofnod.

represented the Coummunity Council at the Proclamation Ceremony in Cardigan on 29th June 2019.Cllr Gethin Jones thanked the Council for the honour.

**7** Planning
Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 10 July 2019 was received.

Members were finding it difficult to log onto the planning documents.  The clerk to contact the County Council for further guidance.

8)  Financial Information
**Invoices:**-

Llinos Jones– Invoice for 190.00 for June translation was received and passed for payment.

Swalec – Cheque was written for £644.18 for Christmas lighting in Llandysul.

As it was only Cllr Andrew Howell present as signatory at the meeting.  The clerk to contact Abby Reid for second signature.

**<u>Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques</u>:**

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | £ c/£ p | |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 190.00 | 000777 |
| Swalec | Golau Nadolig/Christmas Lighting | 644.18 | 000778 |
| Carnifal Llandysul | Rhodd/Donation | 220.00 | 000779 |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 105.00 | 000780 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages July | 455.87 | 000781 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages July | 113.96 | 000782 |
| Nia Davies | Ol Gyflog/Arrears | 35.04 | 000783 |
| HMRC | OL Gyflog Arrears | 8.76 | 000784 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages Aug | 455.87 | 000785 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages Aug | 113.96 | 000786 |